



Nifer y busnesau sydd wedi cofrestru:

**11,742**



Nifer yr unigolion sydd wedi cofrestru:

**24,464**

## Cynllun Datblygu Personol (PDP)

CAFODD **267** PDP EU CREUYNYSTODY CYFNOD.



## Rhaglen Fentora



**569**

O BOBL WEDI CAEL EU MENTORA



**25**

PERSON NEWYDD WEDI CAEL EU MENTORA YN YSTODY CYFNOD HWN

Y pynciau mwyaf poblogaidd a ymgeisiwyd ar eu cyfer yn ystod y cyfnod oedd:

Paramaethu ac amaethyddiaeth adfywiol

Olyniaeth

Magu moch

Ynni adnewyddadwy

## Rhwydwaith Arddangos

### Plas yn lâl: Integrating income generation whilst improving and enhancing the environment

Prif nod y prosiect ar fferm Plas yn lâl, un o safleoedd ffocws Cyswllt Ffermio, yw integreiddio'r broses o gynhyrchu incwm gan hefyd wella ac ehangu buddion amgylcheddol trwy gyflwyno a gweithredu cynllun rheolaeth coetir Coedwigaeth Gorchudd Parhaus (CCF).

Cynhaliwyd archwiliad ffisegol o'r coetir yn ystod mis Rhagfyr 2020 i gasglu data o ran y coed a data masnachol o 10 llain, gan gofnodi maint y coed, rhywogaethau, adferiad, haenau'r cae a maint y polion.

Roedd y prif ganfyddiadau'n dangos bod y strwythur presennol yn cynyddu mewn cyfaint 7.2m<sup>3</sup>/ha/y flwyddyn, sy'n gyfwerth ag oddeutu 90 tonnell o goed neu 178,365kWh/y flwyddyn. Mae eu gofynion o ran tanwydd coed oddeutu 28,000kWh/y flwyddyn, sy'n golygu y gallai cyflwyno arferion Coedwigaeth Gorchudd Parhaus yn gallu darparu 76 tonnell neu 150,365kWh/y flwyddyn o goed y gellir eu gwerthu'n flynyddol.

Cam nesaf y prosiect yw cynnal arolwg drôn i gasglu a chymharu data'r coetir gyda mesuriadau'r arolwg tir. Bydd hyn yn dangos a fyddai defnyddio drôn ar raddfa fawr yn lleihau'r angen i arolygu ar y tir. Mae cynllun rheoli coetir CCF hefyd ar y gweill a bydd yr holl goed sy'n cael eu torri'n cael eu graddio a'r gwerth yn cael ei gymharu gyda chostau cwmpo ac echdynnu.

Cynhaliwyd gweminar lwyddiannus ar 25 Mawrth 2021 i roi trosolwg o'r hyn sydd wedi cael ei wneud hyd yma ar safle Plas yn lâl. Yn ogystal â diweddariad ar y prosiect gan Phil Morgan, bu Huw Beech, sy'n ffermio safle Plas yn lâl yn rhoi cefndir coetir y fferm ac yn trafod yr hyn y mae'n gobeithio ei gyflawni drwy'r prosiect safle ffocws; cynyddu cynhyrchiant ac effeithlonrwydd i ddarparu nwyddau cyhoeddus a thanwydd ar gyfer y boiler biomas. Rhoddodd ddiolch hefyd i Cyswllt Ffermio am yr holl gyngor ac arweiniad y mae wedi'i dderbyn, a dywedodd ei fod bellach yn ystyried coetir y fferm fel ased erbyn hyn yn hytrach na rhwymedigaeth. Disgrifiodd Huw y gefnogaeth a dderbyniodd fel rhan o'r rhaglen fentora a'r gwasanaeth cynghori a'r profiad o weithredu fel safle ffocws yn "werthfawr iawn".

### Moelgan Fawr: Defnyddio technoleg i fonitro iechyd – gwella'r patrwm lloia, cyfraddau beichiogi a lleihau colledion wrth loia

Cafodd 39 bolws rwmen nodweddiadol smaXtec classic eu rhoi i heffrod Stabiliser blwydd oed ar fferm Moelogan Fawr yn 2020. Pwrpas y bolws yw mesur gweithgaredd a thymheredd mewnol yr anifail yn barhaus, a allai roi cipolwg o statws iechyd yr anifail, yn ogystal â chanfod newidiadau ac anfon negeseuon hysbysu pan fydd ar fin lloia neu ofyn tarw. Un o brif elfennau'r prosiect oedd canfod cyfnod ffrwythloni pob heffer gan ddefnyddio data gweithgaredd, er mwyn gallu rhoi AI ar yr adeg fwyaf addas o fewn y gylchred. Rhoddwyd y bolwsau ar 14 Ebrill 2020, gyda'r gwaith o fonitro arwyddion o ofyn tarw'n dechrau ar 1 Mehefin 2020.

Mae'r cyfraddau beichiogi'n dilyn yr AI cyntaf wedi cynyddu >10% ar ôl rhoi'r bolws. Mae hyn wedi arwain at gyflawni un o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a osodwyd ar ddechrau'r prosiect, sef cynyddu canran yr heffrod sy'n beichiogi'n dilyn yr AI cyntaf o 57% i >65%. Yn ogystal, mae nifer y gwellt semen a ddefnyddiwyd wedi lleihau 4% yn 2020 o'i gymharu â ffigyrau 2019, sydd wedi lleihau costau yn y pen draw.



Ffigwr 1. Heffrod ar safle arddangos Moelogan Fawr

Roedd yr amser a dreuliwyd yn arsylwi'r heffrod yr un fath â'r blynyddoedd blaenorol, sef pum awr y dydd. Mae Tabl 1 yn rhoi crynodeb o'r costau milfeddygol sy'n gysylltiedig â ffrwythloni'r heffrod cyn rhoi'r bolws yn ogystal ag ar ôl rhoi'r bolws. Noder, nid yw costau sgorio aeddfedrwydd a mesuriadau'r pelfis wedi'u cynnwys gan fod y rhain yn asesiadau ychwanegol a gynhaliwyd fel rhan o'r prosiect.

Tabl 1. Costau triniaeth filfeddygol yn gysylltiedig â ffrwythloni'r heffrod cyn ac ar ôl rhoi'r bolws. Defnyddiwyd system CIDR (Rhyddhau Cyffuriau dan Reolaeth yn Fewnol) i gydamseru yn 2018 a 2019; rhoddwyd bolws yn 2020).

	2018	2019	2020
Costau milfeddygol (£/heffer)	£33.73	£29.51	£6.46
Arbediad ariannol o'r flwyddyn flaenorol (£/heffer)	Amherthnas ol	£-4.22	£-23.05

O ran costau ychwanegol, gwnaed buddsoddiad sylweddol ar ddechrau'r prosiect er mwyn prynu'r bolwsau. Mae'r gost flynyddol dros bedair blynedd yn gyfwerth â <£32/heffer. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer data ychwanegol er mwyn canfod problemau iechyd a lloia.

## Graig Olway: Rhoi sylw i iechyd traed yn werth £25,000 y flwyddyn i fferm laeth yng Nghymru

Mae haneru'r cyfraddau cloffni o lefel uchaf o 49% wedi arwain at fod fferm laeth yng Nghymru wedi arbed dros £25,000 y flwyddyn mewn costau.

Roedd fferm Graig Olway, ger Brynbuga, wedi bod yn brwydro yn erbyn dermatitis digidol a briwiau ar wadnau traed ei buches o 170 o wartheg Holstein cynhyrchiol sy'n cael eu godro mewn system awtomatig.

O ganlyniad i waith prosiect Cyswllt Ffermio â'r milfeddyg Sara Pedersen, mae'r lefelau cloffni i lawr i 24%, mae hyn yn golygu bod y ffermwr Russell Morgan ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed sydd angen ei gyrraedd er mwyn cael gwell cytundeb llaeth.

Dechreuodd y prosiect ym mis Ionawr 2020 pan oedd 39% o'r fuches yn gloff, gan gynnwys 25% o'r heffrod. Roedd y sefyllfa yn costio £50,370 y flwyddyn i'r busnes oherwydd bod llai o laeth yn cael ei gynhyrchu, ffrwythlondeb gwael, prisiau is am wartheg difa a thriniaethau; cafodd hyn ei gyfrifo gan Ms Pedersen, sy'n arbenigwr mewn iechyd a chynhyrchiant gwartheg. Amcangyfrifir bod y cynhyrchiant a gollir mewn buwch sy'n ddirifol gloff sydd â sgôr o 3 yn £4.50/dydd ac yn £1.50/dydd mewn buwch gloff sydd â sgôr o 2.

Ar ddechrau'r prosiect tair blynedd, roedd gan Mr Morgan 10 buwch â sgôr o 3 a 62 â sgôr o 2.

Cafodd Rhaglen Traed Iach AHDB ei rhoi ar waith a sefydlwyd cynllun gweithredu; roedd hwn yn cynnwys triniaeth 'ddwys' yn erbyn dermatitis digidol, wedyn trefn fwy effeithiol o roi triniaeth bath traed i gadw'r lefelau heintiau'n isel. Gyrrwyd y buchod a oedd yn godro drwy'r bath traed bedair gwaith yr wythnos a'r buchod sych a'r buchod sydd yn y cyfnod trawsnewid dair gwaith yr wythnos. Un o'r mesurau a gymerwyd i ddelio a briwiau ar y gwadnau oedd adnewyddu'r matresi yn y ciwbiclau, i annog y buchod i orwedd mwy.

Mae briwiau ar y gwadnau yn datblygu o ganlyniad i sefyll gormod a, gan nad oedd y matresi yn gyfforddus iawn, nid oedd y buchod yn gorwedd digon. I awyru'r sied yn well, tynnwyd yr estyllod pren o'i hamgylch ac ailosodwyd y ffaniau.

Mae'r drefn trimio traed wedi cael ei gwella i sicrhau bod y buchod yn cael eu cyflwyno i drimio'u traed pan fo angen a chaiff heffrod cyn lloia eu cynnwys hefyd. Bu'n holl bwysig gallu gweithio'n agos â'r trimiwr traed Alan Colebatch sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Safonau Gofal Carnau Gwartheg, ac mae cadw mewn cysylltiad clos â'r tîm wedi helpu i lywio penderfyniadau ar brotocolau ac ymyraethau pellach, meddai Ms Pedersen. I helpu hyn, mae partner Mr Morgan, Sarah Smith, yn gwneud archwiliadau sgorio symudedd bob pythefnos, er mwyn gallu gweld problemau cloffni pan maent yn dechrau ymddangos, cyn i'r briwiau ddatblygu. Yn ystod haf 2020, cyrhaeddodd yr achosion o gloffni yng Nghraig Olway benllanw ar 49% o ganlyniad i straen gwres.

Aethpwyd i'r afael â hyn drwy ddefnyddio data i benderfynu pa fuchod i'w trimio a'u trin, a llwyddwyd i leihau'r achosion i'w lefelau presennol o 24%; ac ni chafwyd achosion o friwiau ar wadnau traed y gwartheg yn y pum mis diwethaf. Wrth i'r prosiect barhau, bydd y ffocws yn symud at wella'r llif aer rhag bo'r achosion o gloffni yn cynyddu'r haf hwn ac at ddifa buchod sydd â chloffni cronig pan fo heffrod yn ymuno â'r fuches.

## Agrigôp

Gan weithio gyda'i gilydd fel grŵp, gall aelodau Agrigôp ddysgu sgiliau rheolaeth newydd, cael mynediad at wybodaeth arbenigol ac archwilio a datblygu dyfodol hyfyw ar eu cyfer nhw, eu teuluoedd a'u busnes.

**61**

GRŴP  
GWEITHREDOL  
gyda

**484**

O AELODAU  
wedi mynychu  
cyfanswm o


**76**

CYFARFOD  
yn ystod y  
cyfnod hwn

Pynciau a drafodwyd:




Twristiaeth



Peiriannau  
gwerthu llaeth



Cadw gwenyn



Defaid godro

## Gwasanaeth Cyngori



Derbyniodd 90 o unigolion gymorth drwy Gategoriâu Busnes y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.



Derbyniodd 6 grŵp gymorth drwy Gategoriâu Busnes y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.

## Grwpiau Trafod

### Grŵp Llaeth y Drenewydd – Effaith Brexit ar lafur a rheoli staff yn effeithiol

Yn ôl arolwg gan Gymdeithas Frenhinol Ffermwyr Llaeth Prydain (RABDF) a gynhaliwyd yn 2016, roedd dros hanner y rhai a ymatebodd wedi cyflogi staff o du allan i'r DU dros y pum mlynedd diwethaf. Bydd Brexit yn effeithio ar allu ffermydd i gael mynediad at y gweithwyr hyn o hyn ymlaen. Yn ystod y cyfarfod, bu Rachael Davies o Kite Consulting yn trafod effaith Brexit ar lafur ar y fferm gyda'r Grŵp Llaeth y Drenewydd, ac yn trafod yr hyn sy'n ofynnol gan ffermwyr sy'n dymuno cyflogi gweithwyr llaeth o dramor yn y dyfodol.

Dechreuodd drwy ofyn i'r grŵp gyflwyno eu hunain, eu busnesau a manylion penodol am eu strwythurau staffio presennol i roi cefndir a chyd-destun i'r digwyddiad.

Wrth i'r grŵp gymharu gwahanol strwythurau staffio, buont hefyd yn edrych ar strategaethau pobl; sut i ddenu talent newydd, cadw staff, datblygu staff a defnyddio technoleg er mwyn gwneud arferion yn fwy effeithlon. Bu'r grŵp yn trafod eu gofynion staffio a sut maen nhw'n rheoli eu staff ar hyn o bryd. Trafodwyd cynnydd o ran talent a gwobrwyo staff. Soniodd Rachael fod gofynion staffio pawb yn wahanol a bod angen iddynt edrych yn fanwl ar eu gofynion a sut i sicrhau bod eu tîm yn llawn cymhelliant ac yn perfformio ar ei orau.

Trwy raglen Cyswllt Ffermio, gall busnesau cofrestredig cymwys dderbyn cyngor gan Rachael am gyfnod o awr wedi'i ariannu'n llawn i drafod rheoli staff, a phe byddai angen cyngor pellach, mae Rachael hefyd yn ymgynghorydd cymeradwy ar fframwaith Gwasanaeth Cyngori Cyswllt Ffermio. Mae cyllid hefyd ar gael ar gyfer sgiliau a hyfforddiant ar amrywiaeth o gyrsiau datblygu staff i unigolion, gan gynnwys gweithwyr PAYE.

## Cymorthfeydd




CYNHALIWDYD

19 CYMHORTHFA gyda



133 O FNYCHWYR

### Mynychwyr cymorthfeydd yn ôl eu prif sector eu busnes



Adborth gan fuddiolwyr:

“Roedd modd i ni wneud penderfyniadau'n seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd i ni gan yr ymgynghorydd. Fe wnaethom ni ddysgu am gostau posibl a phethau a fyddai'n ein herio ni a'n syniadau, ac fe wnaethom ni ganfod atebion ar gyfer hynny.”

“Llwyddodd y gymhorthfa i amlygu pethau nad oeddem wedi'u hystyried, ac fe wnaethom ni ddysgu bod angen i ni greu cynllun ariannol manylach o lawer na'r hyn a oedd gennym yn wreiddiol.”

**46** O BROSIECTAU WEDI'U CYMERADWYO

gyda

**232** FFERMWR A CHOEDWIGWR



### Mabwysiadu technoleg Rhyngwyd o Bethau'n gynnar i hysbysu a rhybuddio ffermwyr i wella diogelwch

Mae diogelu'r busnes fferm yr un mor bwysig â'i ddatblygu, ac mae grŵp o ffermwyr yng ngogledd Cymru wedi dod ynghyd i weithio ar brosiect EIP yng Nghymru i weld a allai synwryddion sy'n cysylltu gyda'r rhwydwaith Rhyngwyd o Bethau (IoT) anfon hysbysiadu cynnar o weithgareddau sy'n ymwneud ag eiddo risg uchel. Gan weithio gyda Heddlu Goledd Cymru, bydd y grŵp yn cysylltu synwryddion gyda beiciau pedair olwyn, trelars a drysau a fydd yn anfon neges hysbysu at eu ffonau clyfar os bydd y synwryddion yn cael eu haflonyddu. I ddangos a phrofi potensial y dechnoleg, byddant yn creu sefyllfaedd prawf i weld a oes modd rhannu hysbysiadu gyda'r heddlu mewn modd effeithiol. Mae dwyn oddi ar ffermydd yn costio £2.6m y flwyddyn i ffermwyr, ac mae'n effeithio'n sylweddol ar fusnesau o ganlyniad i gollu asedau, difrod, colli oriau gwaith a chostau prynu eitemau newydd, yn ogystal â chostau yswiriant.



### Mentor


**617**



O DDATGANIADAU DIDDORDEB WEDI CAEL EU CYFLWYNO ERS DECHRAU'R RHAGLEN MENTRO

**419**

O GYFRANOGWYR GWEITHREDOL



**14,819** ERW O DIR



**63** WEDI DOD O HYD I BARTNER

### Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth



STRATEGAETHAU A THECHNOLEGAU ER MWYN GWELLA IECHYD A DIOGELWCH AR Y FFERM

Yn ystadegol, amaethyddiaeth yw un o'r diwydiannau mwyaf peryglus, ond er mwyn i fusnes allu gweithredu'n llwyddiannus, mae angen i'r gweithwyr fod yn ddiogel ac yn iach. Mae'r erthygl hon yn edrych ar sut y gall technoleg helpu gyda hyn gan gynnwys dyfeisiau clyfar sy'n gallu monitro gweithgarwch a lleoliad.

### Gweminarau



CYNHALIWYD **12** GWEITHDY GADEWCH I NI SIARAD BUSNES

gyda



**104** O FNYNCHWY

Roedd y gyfres o weminarau rhyngweithiol yn trafod y prif bethau i'w hystyried wrth gynllunio ar gyfer dyfodol eich busnes. Roedd y gweminarau hyn yn darparu gwybodaeth hanfodol yn ymwneud â'r canlynol:

Cynllunio busnes



Rheoli newid



Sut i ystyried cyfleoedd ar gyfer y dyfodol



Pwysigrwydd dadansoddi sefyllfa bresennol y busnes



Cafodd y rhain eu rhannu'n fras i gategorïau cyngor busnes a thechnegol. Cafodd busnesau cymwys gynnig y cyfle i gael adolygiad llawn o'u busnes i ganfod meysydd i'w wella, neu i ganolbwyntio ar feysydd penodol megis dadansoddi'r pridd a phorthiant, arweiniad ar dda byw, bioamrywiaeth neu ffermio'n fwy gwyrdd.

### E-ddysgu

Mae rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod yn cynnwys:

IECHYD A DIOGELWCH



TAW



MEINCNODI AR Y FFERM



CYNLLUNIO A CHYLLID



Cliciwch yma i fynd i'r wefan.

### Hyfforddiant

Cyrsiau	Nifer yr unigolion a dderbyniodd hyfforddiant yn ystod y cyfnod
Cadw Llyfrau	25
Deall a defnyddio eich cyfrifon	13
Cynllunio a Datblygu Busnes	12
Marchnata eich Busnes	8
Cymorth Cyntaf yn y Gweithle mewn Argyfwng	8

### Rhaglen TGCh

LEFEL 1	LEFEL 2	LEFEL 3
Cwrs hyfforddi 6 wythnos o hyd =	Hyfforddiant un-i-un =	Gweithdai =
<b>56</b>	<b>80</b>	<b>291</b>
unigolyn wedi derbyn hyfforddiant	unigolyn wedi derbyn hyfforddiant	wedi mynychu

Roedd themâu'r gweithdai yn cynnwys:

- Y dechnoleg ddiweddaraf ym maes dronau a'i defnydd o fewn amaethyddiaeth
- Atebion storio slyri gan ddefnyddio adnodd Slurry Wizard AHDB
- Marchnata digidol
- TCC, da byw a diogelwch amaethyddol